

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
17/01/2022**

Presennol: Clwyd Davies (Is-gadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)

Yn bresennol am ran o'r cyfarfod dros y ffôn: Geraint Roberts, (Cadeirydd),

Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd)

Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb gan yr is-gadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau Geraint Roberts nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y Neuadd Bentref.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 8/11/21.
5. **Materion y Clerc** a Materion yn codi: Diolchwyd yn gynnes iawn i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru am ganiatáu i'r Cyngor gael brush-cutter, berfa a 2 gribyn fel cydnabyddiaeth o'r gwaith gwirfoddol a wnaethpwyd yn y fynwent yn 2021.

Oherwydd yr Agenda maith, cytunwyd i roi rhai materion ar yr Agenda nesaf.

Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans, Cyngor Gwynedd, a soniodd am sut mae Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi yn cael ei wario yng Ngwynedd. Mae'r premiwm hwn werth £7miliwn o bunnau'r flwyddyn ac mae pwyso iddo gael ei rannu'n gyfartal i ardaloedd megis ardal ysgol uwchradd. Mae gan Gyngor Gwynedd gynlluniau i wario'r arian a dderbynnir o'r premiwm megis datblygu stoc tai, grantiau i brynwyr tro cyntaf, cymorth i adnewyddu tai gwag, cymorth i ychydig o brosiectau hunan-adeiladu, estyn cyfnod o eithrio o dreth cyngor i rai prynwyr cyntaf, datblygu rhai podiau i gartrefi rhai digartref ar frys, a datblygiadau cymdeithasol a gofal eraill. Mae'r cynlluniau yma wedi derbyn clod trwy Gymru ac mae nifer o'r cynlluniau yn cael eu hefelychu gan awdurdodau eraill. Mae Gwynedd yn parhau i aros am fanylion gan Lywodraeth Cymru ar sut i symud ymlaen gydag argymhellion arloesol yn ardal Dwyfor.

Diolchwyd i'r Cynghorydd am yr wybodaeth hon ac awgrymodd Tyly Roberts y byddai'n dda pe byddai swyddogion Cyngor Gwynedd yn cynnal syrjeri tai/cartrefi i bobl leol yng Nghanolfan Henblas. Dywedodd Cynghorydd Alan Jones Evans y byddai'n dwyn y syniad i sylw deilydd y portffolio, Craig ab Iago.

6. **MEWNOL:** Is-bwyllgor cyllid (gweler Cofnodion ar wahân)

7. Adroddiadau:

- i. adroddiad o gyfarfod Zoom gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri (Lis Puw a'r Cynghorydd Alan Jones Evans)
- ii. braslun ar lafar o Gynllun Ardal Llanuwchllyn (Lis Puw a'r Cynghorydd Alan Jones Evans). Gwahoddwyd Huw Antur i egluro ymhellach.
- iii. Partneriaeth Penllyn (Tyly Roberts): gyda chefnogaeth Parc Cenedlaethol Eryri, mae asesiad o effaith datblygiadau a gor-dwristiaeth yn cael ei baratoi gan arbenigwr annibynnol.

8. Ceisiadau cynllunio:

- i. Cadarnhawyd caniatâd i ail wynebu maes parcio wedi ei wynebu a llechi mâl ac asffalt athraidd Fach Ddeiliog (Bala Lake Hotel), Bala. LL23 7BS (Ymgynghoriad e-bost)
- ii. NP5/70/LB28 GWRTHODWYD trwy fwyafrif Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau i'r bont droed gan gynnwys gosod trac trêrn a gwaith cysylltiedig Pont Mwnwgl-y-Llyn, Bala.
- iii. NP5/53/576GWRTHODWYD trwy fwyafrif Estyniad arfaethedig i reilffordd trac cul Llyn Tegid i gynnwys 1200m o drac reilffordd, croesfan reilffordd, codi gorsaf reilffordd newydd, adeiladau ategol ar gyfer injan drên a cherbydau, blwch signal ynghyd a datblygiad cysylltiol

Nodwyd nad oes **asesiadau annibynnol** CADW, SSSI, Peirianeg, Priffyrdd a thrafnidiaeth.

Y prif bryderon a ddaeth i'r amlwg:

- a. **Diogelwch - yn ardal Pen-y-bont,**
 - wrth deithio o/i Rhosygwaliau
 - o /i Langynog ar B4391,
 - o /i Langywer ar B4403
 - o/i'r Bala ar B4403 a B4391
- b. **Diogelwch** bob cam ar hyd y B4409, yn arbennig ar ôl i gerbydau gronni wrth y goleuadau traffig
- c. **Diogelwch** cerddwyr niferus, yn cynnwys
 - trigolion ac ymwelwyr i'r Bala,
 - gwersyllwyr "Maes Carafanau Penybont"
 - gwersyllwyr "Parc Gwyliu Pen y Garth"
 - Ymwelwyr a Chlwb Hwyllo'r Bala
- d. **Parcio** wrth Penybont er mwyn cyrraedd at y llyn yn creu rhwystr
- e. **Parcio:** byddai lleihad yn y llefydd parcio yn y dref i drigolion yr ardal
- f. **Oedi** - y goleuadau yn achosi oedi
- g. **Cadw** - dylid cadw pont Mwnwgl y Llyn fel y mae

Roedd y Cynghorwyr yn dymuno tynnu sylw fod trigolion wedi methu gadael na chyrraedd eu cartrefi yn ardal pentref Llangywer ar 2 ddiwrnod yn Haf 2021. Bu problemau tebyg y flwyddyn cynt (ac yn y gorffennol) ar benwythnosau braf. Mae preswylwyr yr ardal hon yn teimlo dan warchae oherwydd pwysedd yr ymwelwyr. Nid oes unrhyw fantais i blwyfolion

Llangywer a Rhosygwaliau o'r datblygiad hwn. Roedd y Cynghorwyr yn hyderus eu bod yn adlewyrchu barn mwyafrif llethol yr ardal.

9. Gohebiaeth:

- i. Cyngor Gwynedd: bydd Cyngor Gwynedd yn darparu biniau halen o hyn allan a diolchwyd i'r Cynghorydd Alan Jones Evans am ei waith i sicrhau hyn.
- ii. Un Llais Cymru - ymgynghoriad ar ail gartrefi: dywedodd y Clerc y byddai'n e-bostio templed ar gyfer unigolion ymateb os mai hynny yw eu dymuniad.

10. **Materion lleol:** cafwyd trafodaeth ar werthiant trwy ocsiwn o Eglwys Santes Gwawr.

11. **Dyddiad a lleoliad** y cyfarfod nesaf: 21/2/2022 Neuadd Llangywer